TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

WJEC Diploma in Foundation Studies (Art and Design) Level 3/4

Yn gryno

Nod y cwrs hwn yw canfod diddordebau a chryfderau unigol o fewn ystod o ddisgyblaethau celf a dylunio a'ch paratoi ar gyfer mynediad i Addysg Uwch

Dyma'r cwrs i chi os...

... Ydych eisiau astudio Celf a Dylunio yn y Brifysgol

... Ydych yn greadigol

... Ydych eisiau gwthio eich galluoedd creadigol i ddod o hyd i'ch llwybrau dewisol

Beth fyddaf yn ei wneud?

Mae'r cwrs hwn yn addas ar gyfer ystod o fyfyrwyr, gydag amrywiaeth o sgiliau academaidd a chreadigol. Y nod yw ymestyn eich galluoedd creadigol a darganfod pa lwybr gyrfa sy'n addas i

chi.

Byddwch hefyd yn ennill profiad ymarferol o cerameg, gwneud printiau, ffasiwn a thecstilau, yn ogystal â'r elfennau craidd - yn seiliedig ar luniadu a pheintio, graffeg a chyfrifiaduron, ac astudiaethau hanesyddol a chyd-destunol. Byddwch yna'n datblygu yn eich cyfeiriad dewisol. Byddwch yn cael arweiniad gofalus ar gyfer paratoi eich portffolio yn barod ar gyfer cyfweliadau.

Mae'r cwrs hwn wedi ei rannu i 3 cham sy'n cynnwys 3 tymor academaidd:

Cam 1 - Archwilio iaith weledol greadigol ym maes celf a dylunio
Cam 2 - Datblygu ymarfer arbenigol a pharatoi ar gyfer dilyniant ym maes celf a dylunio
Cam 3 - Cynllunio, creu a chyflwyno prosiect celf a dylunio mawr

Asesir y cwrs hwn drwy ystod o weithgareddau, gan gynnwys asesiadau ymarferol ac ysgrifenedig, cyflwyniadau, portffolios ac arsylwadau. Pan fyddwch yn ei gwblhau, byddwch yn cyflawni Diploma Astudiaethau Sylfaenol CBAC mewn Celf a Dylunio.

Beth a ddisgwylir ohonof i?

I gofrestru, fel rheol byddwch angen cymhwyster Safon Uwch neu gymhwyster celf Lefel 3 cyfwerth, gan gynnwys pwnc celf a dylunio. Croesawir ceisiadau hefyd gan fyfyrwyr heb gymwysterau ffurfiol, ond sydd â phrofiadau eraill, os gellir darparu tystiolaeth o allu artistig mewn cyfweliad.

Mae'r cwrs yn aml-ddisgyblaethol a'r nod yw rhoi blas i chi o'r gwahanol bynciau o fewn celf a dylunio, megis celf gain, astudiaethau cyd-destunol, tecstilau, serameg, ffotograffiaeth, argraffu a graffeg.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Cyrsiau Addysg Uwch ar draws yr ystod lawn o gelf, dylunio a phynciau cysylltiedig.

Gwybodaeth Ychwanegol

Fel rhan o'r gofynion mynediad, bydd disgwyl i chi fynychu cyfweliad adolygu portffolio lle

byddwch yn arddangos eich addasrwydd ar gyfer y cwrs. Yn ystod y cyfweliad byddwch yn cyflwyno eich portffolio a llyfrau braslunio i'r tîm cwrs. Dylai eich gwaith arddangos eich gallu i fynegi a datblygu eich syniadau.